

MALO (adnabyddir ef hefyd fel Machu, Machutes, Maclovius, ac yn Gymraeg, Mechell), sant, fl. yn y 6ed ganrif

Enw: Malo
Rhiant: Derfel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Hywel David Emanuel

Y tebygolrwydd yw mai yn gynnar yn y 9fed ganrif yr ysgrifennwyd y llawysgrif wreiddiol o ' Fuchedd Malo Sant.' Nid yw hon ar gael heddiw. Y fersiwn agosaf ati, hyd y gellir casglu, yw honno a argraffwyd gyntaf gan Joannes a Bosco yn ei *Floraciensis vetus bibliotheca*, 1605, 485-515, ac wedyn mewn ffurf gywirach gan Lot (isod). Y mae'r fersiwn a argraffwyd gan Mabillon (isod) a'r ' Fuchedd ' a gyfansoddwyd gan Sigebert de Gembloux yn yr 11eg ganrif, ac a argraffwyd gan Migne (isod), yn ddigon tebyg o ran cynnwys i'r fersiwn a nodir uchod. Ond gwelir cryn dipyn o wahaniaeth rhwng y fersiynau hyn i gyd, ac eithrio'r penodau cynnar, a'r ' Fuchedd ' faith ac ansicr ei ffeithiau a gyfansoddwyd gan Bili, clericwr o Alet, tua 870, ac a argraffwyd gan Lot (isod). Mab Derfel, chwaer i Amwn Ddu, oedd Malo - yr oedd felly yn gefnder i **Samson sant**. Ni sonnir am enw tad Malo. Trigai'r teulu yn ymyl Llanccarfan ym Morgannwg, ac yn ôl yr hanes ganwyd Malo yn y fynachlog honno noswyl y Pasg, a bedyddiwyd ef yno gan yr abad (a gamenwir yn Brendan). Trosglwyddwyd Malo yn ieuanc iawn i ofal yr abad, a chyflawnodd wyrthiau lawer ac yntau namyn bachgen. Ni fyddai gefnu ar fywyd y fynachlog, ar waethaf ceisiadau ei rieni, ac urddwyd ef yn offeiriad gan yr abad gyda swydd pregethwr. Efallai iddo gael ei ordeinio yn esgob hefyd yn Llanccarfan. Wedi rhai blynyddoedd, penderfynodd Malo ymadael â Llanccarfan, a hwyliodd i Lydaw, lle y gwnaed ef yn esgob Alet. Dywedir iddo gyflawni llawer o weithredoedd nerthol yno. Bu farw mewn gwth o oedran ar daith o Alet i randir Saintonge. Enwyd nifer o eglwysi ar ei enw, yn Llydaw ac yn rhanbarthau gogleddol Ffrainc. Yng Nghymru, ef yw nawddsant eglwysi Llanfocha (St. Maughans) a Llanfaenor yn sir Fynwy a Llanfechell ym Môn. 15 Tachwedd a nodir gan amlaf fel ei ddydd gŵyl.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*iii, 411-34

F. Lot, *MÃ©langes d'histoire Bretonne* (1907), 97-206, 287-430

F. Lot, *Annales de Bretagne*, xxii, 700-59; xxiii, 29-79, 553-79; xxiv, 90-106, 235-62, 382-405, 575-98; xxv, 47-73

J. Mabillon, *Acta Sanctorum ordinis Sancti Benedicti* (1668), i, 217-22

Migne, *Patrologiae cursus completus â€¦ Series (Latina)*, clx, 729-46

Le Grand, *Les vies des Saints de la Bretagne-Armorique* (1837), 590-604

Revue Celtique (1870â€”1934), xi, 1-22

Analecta Bollandiana, xxiv, 483-6

Duine, *Memento des sources hagiographiques del'histoire de Bretagne* (1918), 51-7

J. F. Kenney, *The sources for the early history of Ireland an introduction and guide* (1929), i, 417-8

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Malo**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 10759049

Wikidata: Q468195

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

